# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 27 Tachwedd 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion

(98)v4

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13:30

Gofynnwyd y 15 cwestiwn. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

**Cwestiwn Brys 1**
Dechreuodd yr eitem am 14:20

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr oedi cyn cyflwyno Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a'r goblygiadau posibl i bobl sy'n derbyn budd-dal y Dreth Gyngor.

**Cwestiwn Brys 2**
Dechreuodd yr eitem am 14:31

**Byron Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am golli 580 o swyddi yn Tata Steel yn Ne Cymru.

**Cwestiwn Brys 3**
Dechreuodd yr eitem am 14:36

**Aled Roberts (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ffyrdd sydd wedi'u cau yn ddiweddar oherwydd llifogydd yng Ngogledd Cymru.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14:51

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau: Cyflwyno Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 15:01

**4. Datganiad gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ardaloedd Menter - TYNNWYD YN ÔL**

**5. Datganiad gan y Prif Weinidog ar Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru - TYNNWYD YN ÔL**

**6. Dadl ar Adroddiad Blynyddol Datblygu Cynaliadwy**

Dechreuodd yr eitem am 15:21

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ffaith bod Adroddiad Blynyddol y Cynllun Datblygu Cynaliadwy wedi'i gyhoeddi, ac yn arbennig sylwadau'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy.

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi argymhellion y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ar waith, er mwyn sicrhau y rhoddir digon o sylw i feysydd fel amaethyddiaeth, diogelu'r cyflenwad bwyd a thwristiaeth yn y dyfodol.

**Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi beirniadaeth y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy fod 'rhai rhannau o'r adroddiad i'w gweld yn hyrwyddo arian a ddyrennir ac a werir ar gynlluniau yn hytrach na hyrwyddo'r canlyniadau a'r manteision i gynaliadwyedd sy'n deillio o'r cynlluniau hynny', ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailystyried y modd y mae'n asesu llwyddiant rhaglenni Llywodraeth Cymru ar draws pob adran, yn seiliedig ar ganlyniadau yn hytrach nag ar fewnbwn.

**Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud mwy o gynnydd at Gymru gynaliadwy os gwnaiff sicrhau bod mwy o'r canlynol ar gael:

a) rhaglenni effeithlonrwydd ynni cartref fel Arbed;
b) rhaglenni sy'n annog cymunedau i fuddsoddi mewn prosiectau ynni adnewyddadwy graddfa fach fel trydan dŵr; ac
c) trafnidiaeth gyhoeddus integredig.

**Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i drydanu, a'r effaith gadarnhaol y bydd hyn yn ei chael ar leihau allyriadau CO2 Cymru.

**Derbyniwyd gwelliant 5 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a gweddill y gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**Gwelliant 6 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud llawer o gynnydd at wella ei Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy yn 2012.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 33 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Llywodraeth i ddod â chamau unioni ymlaen ar frys i adfer y 22 Dangosydd Datblygu Cynaliadwy ar gyfer 2012 sydd wedi dirywio neu nad ydynt wedi gwella.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig heb ei ddiwygio. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Gwelliant 8 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod y prif ddangosydd Gwerth Ychwanegol Crynswth, fel yr amlinellir yn yr adroddiad, yn cyfateb i 74% o gyfartaledd y DU yn 2010, yr isaf o blith y gwledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y cynnig heb ei ddiwygio. Felly, gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Gwelliant 9 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu na ddefnyddir llawer ar ddangosyddion economaidd yn yr adroddiad i ystyried llwyddiant polisi Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 19 | 0 | 33 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 9.**

**Gwelliant 10 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pryderon parhaus y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ynghylch elfennau o strwythur a chynnwys yr adroddiad.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 10:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 10.**

**Gwelliant 11 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ar waith yn llawn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 11:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 11.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5102 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi cynnydd a wnaed mewn perthynas â datblygu cynaliadwy yn 2011-12, fel yr amlinellir yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Datblygu Cynaliadwy, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 20 Tachwedd 2012.

Yn croesawu'r ffaith bod Adroddiad Blynyddol y Cynllun Datblygu Cynaliadwy wedi'i gyhoeddi, ac yn arbennig sylwadau'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi argymhellion y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ar waith, er mwyn sicrhau y rhoddir digon o sylw i feysydd fel amaethyddiaeth, diogelu'r cyflenwad bwyd a thwristiaeth yn y dyfodol.

Yn nodi beirniadaeth y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy fod 'rhai rhannau o'r adroddiad i'w gweld yn hyrwyddo arian a ddyrennir ac a werir ar gynlluniau yn hytrach na hyrwyddo'r canlyniadau a'r manteision i gynaliadwyedd sy'n deillio o'r cynlluniau hynny', ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailystyried y modd y mae'n asesu llwyddiant

rhaglenni Llywodraeth Cymru ar draws pob adran, yn seiliedig ar ganlyniadau yn hytrach nag ar fewnbwn.

Yn credu y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud mwy o gynnydd at Gymru gynaliadwy os gwnaiff sicrhau bod mwy o'r canlynol ar gael:

a) rhaglenni effeithlonrwydd ynni cartref fel Arbed;
b) rhaglenni sy'n annog cymunedau i fuddsoddi mewn prosiectau ynni adnewyddadwy graddfa fach fel trydan dŵr; ac
c) trafnidiaeth gyhoeddus integredig.

Yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth y DU i drydanu, a'r effaith gadarnhaol y bydd hyn yn ei chael ar leihau allyriadau CO2 Cymru.

Yn nodi pryderon parhaus y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ynghylch elfennau o strwythur a chynnwys yr adroddiad.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ar waith yn llawn.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 0 | 13 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

### 7. Cynnig i atal Rheol Sefydlog 12.20(i) ac 11.16 i gynnal trafodaeth ar Gomisiwn Silk

Dechreuodd yr eitem am 16:02

**NDM5107 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y datganiad a'r cyhoeddiad wythnosol yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NNDM5108 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 27 Tachwedd 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 8. Dadl ar yr adroddiad gan Gomisiwn Llywodraeth y DU, Comisiwn Silk

Dechreuodd yr eitem am 16:03

**NDM5108 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu cyhoeddi'r adroddiad gan Gomisiwn Llywodraeth y DU, Comisiwn Silk, y cafwyd cytundeb unfrydol arno, ac mae'n edrych ymlaen at ei roi ar waith.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd yr eitem am 16:57

### 9. Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 17:01

**NDM5083 Nick Ramsay (Mynwy):**

Asbestos mewn ysgolion: Datgelu'r wybodaeth yn hytrach nag atal hawl rhieni i gael gwybod amdani.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:26

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 28 Tachwedd 2012.**